**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau, Adfywio a Chyllid

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 9 Ebrill 2024 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C M J Evans | E W Fitzgerald | P R Hood-Williams |
| L James | D H Jenkins | M H Jones |
| M Jones | S M Jones | J W Jones |
| M W Locke | M S Tribe | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cyng. David Hopkins | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Carol Morgan | Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd |
| Tom Price | Swyddog llygredd, tai sector preifat a rheoli adeiladu adrannol |
| Jon Roberts | Arweinydd Tîm Rheoli Adeiladau |
| Richard Rowlands | Rheolwr Perfformiad Corfforaethol |
| Rachel Percival | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P M Black, B J Rowlands a/ac W G Thomas

---

## 78 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

## 79 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim.

## 80 Cofnodion

Cymeradwywyd y cofnodion yn amodol ar ddau newid sy'n ymwneud â llythrennau blaen y bobl a oedd yn bresennol.

## 81 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 82 Adroddiad Archwilio Cymru - 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru

Roedd y Cynghorydd David Hopkins, Carol Morgan, Tom Price a Jon Roberts yn bresennol i roi trosolwg o ymateb y Cyngor i'r adroddiad.

- Mae'r adroddiad yn nodi pedwar argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru a phedwar argymhelliad ar gyfer Awdurdodau Lleol.
- Bydd disgwyl i arolygwyr adeiladau fodloni gofynion cofrestru a chymhwysedd drwy Gynllun Asesu Cymhwysedd. Ar hyn o bryd mae arolygwyr y Cyngor yn cynnal arholiadau i fodloni'r gofyniad hwn. Bydd cadw staff ac olyniaeth yn bwysig ar gyfer y dyfodol.
- Mae rheolaeth ariannol yn cael ei thrafod gyda chynlluniau i roi elw yn y dyfodol tuag at gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi.
- Caiff cyfleoedd i gryfhau gwydnwch drwy gydweithio a datganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau eu harchwilio a threfnwyd cyfarfodydd gyda Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Roedd archwilwyr yn fodlon gyda'r ffordd y mae'r Cyngor yn penderfynu ar ei ffïoedd sy'n unol â rheoliadau.
- Mae rheoli adeiladu'n gweithio mewn partneriaeth â'r adran gynllunio, fodd bynnag, bydd hyn yn cynyddu wrth gyflwyno'r tri cham Gateway a gyflwynir yn yr adroddiad.
- Caiff yr adroddiad blynyddol rheoli adeiladu bellach ei gyflwyno i'r Panel hwn yn y dyfodol.

## 83 Adolygiad Blynyddol Amcanion Lles

Roedd y Cyng. David Hopkins a Richard Rowlands yn bresennol i roi trosolwg o'r adolygiad hwn.

- Pwrpas yr adolygiad hwn yw gwirio bod amcanion lles y Cyngor yn parhau i fod yn addas i'r diben. Gwneir hyn drwy edrych am unrhyw newidiadau i'r sylfaen dystiolaeth a ddefnyddiwyd i benderfynu ar yr amcanion.
- Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad nad oedd angen unrhyw newidiadau i'r amcanion, ac felly mae amcanion lles y Cyngor yn parhau heb newid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

## 84 Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarter 3 2023/2024

Cyflwynodd y Cyng. David Hopkins a Richard Rowlands yr adroddiad. Nodwyd y canlynol:

- Mae'r perfformiad cyffredinol yn dda, gyda rhai heriau, yn enwedig o ran y gweithlu a gofal cymdeithasol.

- Mae fformat mwy newydd yr adroddiad yn ceisio cyfuno'r data ansoddol a meintiol mewn ffordd fwy crwn sy'n cynnwys risgiau diogelu corfforaethol.
- Mae risgiau corfforaethol yn dangos y sgôr risg cynhenid, sef cyn rhoi mesurau rheoli ar waith, a'r sgôr risg weddilliol, sef unwaith y bydd y mesurau rheoli wedi cael eu rhoi ar waith.
- Mae risg cynhenid yr argyfwng costau byw yr un peth â'r risg weddilliol sy'n dangos nad yw mesurau rheoli yn gallu lleihau'r risg honno.
- Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Pobl a Llywodraeth Cymru i gael dros 60 o unedau ychwanegol o lety dros dro a cheir rhagor o wybodaeth am hyn yn y dyfodol agos.

85 **Cynllun Gwaith**

Nodwyd y cynllun gwaith.

86 **Llythyrau**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.01am.

**Cadeirydd**